# RICHARDS, THOMAS (1800 - 1877), llenor Awstralaidd

**Enw:** Thomas Richards
**Dyddiad geni:** 1800
**Dyddiad marw:** 1877
**Priod:** Hannah Elsemere Richards
**Rhiant:** Elizabeth Richards
**Rhiant:** Thomas Richards
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor Awstralaidd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** David Myrddin Lloyd

Ganwyd yn Nolgellau (bedyddiwyd yno 17 Awst 1800) yn fab i Thomas (cyfreithiwr) ac Elizabeth Richards. Aeth i ysgol Christ's Hospital (Llundain) yn 1809, a thrwyddedwyd ef yn feddyg yn 1823. Bu'n llenora yn Llundain, ac yn gyfaill i Hazlitt a llenorion eraill. Ymfudodd yn 1832 i Tasmania, gan weithredu fel meddyg ar fwrdd y llong; gweithiodd fel meddyg yn yr ynys am ychydig, ond troes at lenora, gan olygu cylchgronau a newyddiaduron a sgrifennu llawer o'u cynnwys - yr oedd cefndir Cymreig i amryw o'i storïau gorau. Yn Hobart, yn aelod o staff y *Mercury*, y bu farw yn 1877. Gelwir ef yn ' dad y Wasg yn Nhasmania.'

## Awdur

**David Myrddin Lloyd**, (1909 - 1981)

## Ffynonellau


E. Morris Miller, *Pressmen and Governors Australian editors and writers in early Tasmania a contribution to the history of the Australian press and literature with notes biographical and bibliographical* (1952)

ysgrifau gan E. Morris Miller yn *Across the Years The lure of early Australian books* (Melbourne 1948) ac yn *Education Record* (Tasmania) (Hydref 1948), a llythyrau oddi wrtho


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Thomas Richards (Tasmania)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751829


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu